
# Partneriaeth Y Brifysgol Agored yng Nghymru Tystysgrif Addysg i Raddedigion yng Nghymru1 Strategaeth Ymchwil (2024-2027)

Bydd Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru yn datblygu amgylchedd ymchwil cynhwysol ac ysbrydoledig, lle mae dulliau creadigol a chydweithredol yn cyfrannu at ymchwil o ansawdd uchel sy'n cael effaith ac sy'n cael ei werthfawrogi gan bartneriaid a'r gymdeithas ehangach.

## Blaenoriaethau ymchwil




1. Datblygu diwylliant a chymuned ymchwil gynhwysol ffyniannus sy'n cynnwys y Brifysgol Agored ehangach gan gynnwys yr Ysgol Addysg, Plentyndod, Ieuenctid a Chwaraeon, athrawon dan hyfforddiant, ysgolion partner a rhanddeiliaid eraill.
2. Ehangu gallu a chapasiti ymchwil gyda chefnogaeth a mentora.
3. Datblygu meysydd ymchwil a dod o hyd i nawdd ar gyfer prosiectau a fydd yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant ac ymarferwyr, yng Nghymru, a thu hwnt.
4. Hybu ac annog addysgu seiliedig ar ymchwil mewn prifysgolion ac ysgolion.
5. Cynhyrchu allbynnau ymchwil o safon uchel.
6. Ymrwymo i ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer ein ymchwil.

## Bydd y gweithgareddau i gyflawni'r blaenoriaethau yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| *Grŵp ymchwil Partneriaeth weithredol* | *Cefnogi astudiaethau staff Doethuriaeth ac Ôl-ddoethuriaeth* |
| *Cydweithio gyda phartneriaid i benderfynu ffocws ymchwil ac ymgymryd â phrosiectau* | *Canfod prosiectau ymchwil wedi ei hariannu yn allanol* |
| *Datblygu prosiectau ysgolheigaidd ac ymchwil* | *Rhannu gweithgarwch ymchwil ac allbynnau gyda'r gymuned ehangach* |

Cafodd y Stratgaeth Ymchwil a'r Cynllun Gweithredu eu Tachwedd 2023. Caiff y Cynllun Gweithredu ei adolygu ym mis Gorffennaf 2025, a chaiff gweithgareddau eu haddasu a'u diweddaru fel bo'n briodol. Bydd adolygiad pellach o'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth ym mis Ionawr 2027.